# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Chwefror 2020

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat**

(14.15-14.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(14.30-14.35)

**2.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi at y Cadeirydd ynghylch parhau i ymgysylltu â'r deddfwrfeydd datganoledig - 12 Chwefror 2020**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 Papur i'w nodi 2: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Cadeirydd ynghylch gwybodaeth ychwanegol yn dilyn sesiwn graffu ar 27 Ionawr 2020 - 14 Chwefror 2020**

(Tudalennau 3 - 4)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.35)

## 4 Negodiadau ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol - sesiwn seminar preifat

(14.35-15.35) (Tudalennau 5 - 48)

Yr Athro Anand Menon - Y DU mewn Ewrop sy'n Newid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**5 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi at y Cadeirydd ynghylch parhau i ymgysylltu â'r deddfwrfeydd datganoledig – trafod yr ymateb**

(15.35-15.50) (Tudalennau 49 – 51)

HOUSE OF LORDS
European Union Committee

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 5864
Fax: 020 7219 6715
euclords@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

David Rees AM
Chair, External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1NA

12 February 2020

Dear David,

The House of Lords European Union Committee has very much welcomed dialogue with the devolved legislatures since the 2016 referendum. Following the Committee's reappointment last month, I am writing to you to set out its approach to continuing engagement with the devolved legislatures in the months ahead.

The Committee has identified a number of work priorities between now and the end of the transition period in December 2020. We would welcome engagement with your Committee, and other relevant Committees in the National Assembly for Wales and the other devolved legislatures, to support this work.

In particular, we will continue to scrutinise draft EU legislation during the transition period, and we have secured a commitment from the UK Government to continue to deposit EU documents in, and to provide Explanatory Memoranda to, the UK Parliament. I understand that House of Commons European Scrutiny Committee officials currently share EU documents and Explanatory Memoranda with National Assembly for Wales officials. I trust this will continue. We will also share with you the results of our weekly sift of EU documents, along with any reports and significant correspondence on individual legislative proposals. In turn, we would welcome any information which relevant Committees in the Assembly wish to share regarding their views on EU legislative proposals, including in particular any which you judge raise matters of 'vital national interest', and which therefore may fall within the ambit of section 29 of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020.

With this in mind, I would like to invite the views of National Assembly for Wales Committees on the European Commission's 3 February 2020 Recommendation for a Council Decision authorising the opening of negotiations for a new partnership with the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, together with the UK Government's Written Ministerial Statement on UK/EU relations of the same date. The EU Committee will be considering a draft report on the Commission document at its meeting on Wednesday 5 March. If you would like to share your Committee's views, I would be grateful to receive them by Wednesday 26 February.

Finally, I can assure you of our continuing commitment to dialogue with Committees of the National Assembly for Wales with regard to our other priorities over the coming year. These include:

- **Scrutiny of the future relationship negotiations**;
- **Scrutiny of the formal mechanisms for dialogue between the UK and the EU**, including the Joint Committee on the Withdrawal Agreement, and the Specialised Committees that report to it;
- **Scrutiny of the Protocol on Ireland/Northern Ireland**, including the implications for Wales of its operation.
- **Inter-parliamentary engagement**, where we will continue to prioritise dialogue with the devolved legislatures, the European Parliament and EU national parliaments. In particular, we remain committed to the Interparliamentary Forum on Brexit, and recognise the value of applying this model for sectoral dialogue between relevant committees in each of the legislatures.

I have written in similar terms to Chairs and Conveners of other relevant Committees in the National Assembly for Wales, Scottish Parliament and Northern Ireland Assembly.

Yours sincerely

Lord Kinnoull
Chair of the European Union Committee

**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AM
Chair of the External Affairs and Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

14 Chwefror 2020

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror, pan ofynnoch am wybodaeth bellach yn dilyn y sesiwn graffu ar 27 Ionawr 2020.

Gallaf gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r dogfen gan Lywodraeth Cymru, *Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Blaenoriaethau Negodi i Gymru* gyda'u cysylltiadau yn yr UE, gan gynnwys Cabinetau Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Ursula von der Leyen a Chomisiynydd Masnach Ewrop, Phil Hogan, yn ogystal â gyda Michel Barnier. Anfonwyd copi hefyd at UKRep (bellach UK Mission to the EU, Brussels).

Gan fod amser yn brin yn ystod y cyfarfod, ni lwyddwyd i drafod cwestiynau yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu trafod ynghylch fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar newidiadau i'r rhyddid i symud ar ôl ymadael â'r UE a byddaf yn trafod y materion hyn yn llythyr hwn.

Gofynnoch am ragor o wybodaeth am yr "uwchgynhadledd ar faterion yn ymwneud â fisâu", yr wyf yn cyfeirio ati yn fy ymateb. Mae'r uwchgynhadledd ryngwladol sy'n sôn am fisâu ar gyfer gwyliau yn cael ei chynnal ar 27 Chwefror yng Nghaeredin. Nod yr uwchgynhadledd a'r gweithdy yw datblygu atebion ymarferol er mwyn goresgyn y rhwystrau sy'n wynebu amrywiol wyliau ar draws y DU. Bydd yn gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob cwr o'r DU, yn ogystal â Gweinidogion a swyddogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chynnwys ar y rhestr o wahoddedigion, ac felly bydd gan Gymru gynrychiolaeth briodol yn y digwyddiad.

Mewn perthynas â'r trefniadau a fydd ar waith ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau hyfforddiant ac addysg feddygol ar ddiwedd y cyfnod pontio, gofynnoch am wybodaeth am y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru / PSCGBM@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

trefniadau cyfatebol ar gyfer gweithwyr iechyd y DU sy'n gweithio yn un o'r 27 o wladwriaethau'r UE. Mae hyn, wrth gwrs, yn fater pwysig iawn, ond ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw sicrwydd beth fydd y sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod pontio. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r awydd y mae'r DU a'r UE yn ei rannu i gytuno ar system gynhwysfawr a chyfatebol i gydnabod cymwysterau proffesiynol ar ôl ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod manylion yn cael eu datblygu.

Mae Adrannau Llywodraeth y DU hefyd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau nad yw unrhyw gydnabyddiaeth gilyddol o systemau cymwysterau a gaiff eu negodi gyda'r UE ar ôl ymadael yn creu rhwystrau artiffisial ac yn tanseilio ei gilydd.

Gofynnoch hefyd am ddiweddariad ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Cynllun Cydlyniant Cymunedol newydd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull gorau o amlinellu ein blaenoriaethau ynghylch cydlyniant cymunedol yng Nghymru. Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn disgwyl cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2024 ar 31 Mawrth eleni, ac ynddo ceir amcan penodol ar gydlyniant cymunedol, ac rydym wrthi'n ystyried ar hyn o bryd sut y dylai strategaeth ar gydlyniant cymunedol fod yn gysylltiedig â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

Yn olaf, gofynnoch am wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i derbyn gan Lywodraeth y DU ar yr effaith y mae Ffioedd Sgiliau Mewnfudwyr wedi'i chael ar gyflogwyr Cymru. Cyflwynwyd y Ffioedd hyn ym mis Ebrill 2017 fel rhan o'r gyfres o newidiadau fisa a gyflwynwyd o dan Ddeddf Mewnfudo 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sy'n cefnogi gweithiwr ar fisa Haen 2 dalu ffi ychwanegol, gorfodol o £1000, neu £364 i gwmnïau bach a noddwyr elusennol.

Ni pharatowyd asesiad o effaith ar gyfer Rheoliadau Ffioedd Sgiliau Mewnfudwyr 2017, gan fod Llywodraeth y DU yn cyfrif bod y ffi hon yn dreth, ac felly ei bod y tu hwnt i gwmpas y Fframwaith Rheoliadau Gwell. Mae Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater o gostau ariannol a beichiau gweinyddol fisâu Haen 2 gyda'r Swyddfa Gartref dro ar ôl tro, ond yn anffodus nid ydym wedi cael unrhyw eglurhad am ba effaith y bydd y Ffioedd Sgiliau Mewnfudwyr yn ei chael ar fusnesau.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon